CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

GRANTIAU CYHOEDDI SAESNEG

CANLLAWIAU

GRANTIAU CYHOEDDI REFENIW

## 1 AMCANION

Mae’r cynllun yn rhoi cefnogaeth i staff a rhaglenni cyhoeddi llenyddol a llyfrau plant o safon uchel gan gyhoeddwyr sydd wedi’u lleoli yng Nghymru er mwyn hyrwyddo amrywiaeth, uchelgais a phroffesiynoldeb yn y sector hwn. Mewn rhai achosion, cynhwysir cyfraniad at orbenion yn y grant hefyd.

Mae’r Cyngor Llyfrau hefyd yn gweinyddu Cynlluniau Grantiau Llyfrau Llenyddol Unigol ar gyfer llyfrau Saesneg, cynllun Cefnogi Swyddi ar gyfer cyhoeddwyr Cymraeg a Saesneg, yn ogystal â Chynllun Grantiau Rhaglen a Chynllun Grantiau Llyfrau Unigol ar gyfer llyfrau Cymraeg, ac mae canllawiau ar wahân ar gael ar gyfer y rhain.

## 2 CYMHWYSTER

***Pwy sy’n gymwys i ymgeisio?***
Rhaid i ymgeiswyr fod yn gyhoeddwyr llyfrau llenyddol neu llyfrau plant sefydledig wedi’u lleoli yng Nghymru, sydd â hanes cadarn o gyhoeddi llyfrau o safon uchel. Rhaid i gyhoeddwyr brofi’r angen am nawdd.

## 3 BLAENORIAETHAU A MEINI PRAWF AR GYFER CLORIANNU CEISIADAU

Asesir y rhai sy’n derbyn grant ar hyn o bryd yn ôl targedau a bennwyd ar ddechrau’r cyfnod ariannu ac a gofnodwyd mewn Cytundeb Ariannu. Asesir ceisiadau gan ymgeiswyr newydd yn ôl y meini prawf cyffredinol canlynol:

- hanes y cyhoeddwr;
- y graddau y byddai arian refeniw yn gwella effeithiolrwydd y cyhoeddwr;
- ansawdd tebygol rhaglen y cyhoeddwr, o ran cynnwys, dylunio a chynhyrchu;
- parodrwydd y cyhoeddwr i gefnogi deunydd sy’n debygol o ddenu ysgrifenwyr a darllenwyr newydd;
- gallu’r ymgeisydd i farchnata a dosbarthu ledled Cymru a thu hwnt (os yw hynny’n briodol), yn seiliedig ar strategaeth farchnata fanwl;
- gallu’r ymgeisydd i lynu at amserlen gyhoeddi a Llwybr Critigol safonol y diwydiant;
- eglurdeb rôl yr ymgeisydd mewn perthynas â chyhoeddwyr eraill. Bydd y Cyngor Llyfrau yn ystyried a yw’r cyhoeddwr sy’n ymgeisio yn debygol o lenwi bwlch mewn darpariaeth *neu* berfformio’n fwy effeithiol na chyhoeddwr refeniw sy’n bodoli eisoes;
- gallu’r ymgeisydd i gynhyrchu incwm a denu arian o ffynonellau eraill;
- targedau gwerthiant dros y cyfnod ariannu;
- pa mor briodol yw strwythur rheoli’r cyhoeddwr;
- targedau gwerthiant ar gyfer y cyfnod ariannu;
- pa mor ddigonol yw adnoddau’r cyhoeddwr i gwrdd â’i dargedau;
- gwerth am arian;
- er nad oes gofyn i bob teitl a gyhoeddir fod â chysylltiad Cymreig cryf, bydd cyfraniad yr rhaglen a’r cyhoeddwr i ddiwylliant Cymru yn cael ei ystyried.

- Rydym yn croesawu ceisiadau am lyfrau sy'n helpu i gynyddu amrywiaeth yn y ddarpariaeth sydd ar gael, yn enwedig gwaith sy'n cyfleu profiadau bywyd awduron du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, yn ogystal ag eraill sydd â nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## 4 Y GRANT

- Oddeutu £200,000 y flwyddyn yw cyfanswm cyllideb y cynllun hwn.
- Cynigir cyllideb i bob cyhoeddwr tuag at ei ddiffyg arfaethedig ym mhob blwyddyn o'r cyfnod ariannu (tair blynedd fel rheol, ar yr amod fod arian gan Lywodraeth y Cynulliad yn parhau). Rhaid iddo yntau yn ei dro ymrwymo i gyhoeddi nifer penodol o deitlau yn ystod pob blwyddyn.
- Er mai bwriad y grant hwn yw helpu cyhoeddwyr i gyhoeddi teitlau llenyddol, rhaid i gyhoeddwyr hefyd gynhyrchu rhestr gytbwys o deitlau. Er mwyn sicrhau'r cydbwysedd hwn, cytunir ar dargedau gwerthiant cyfartalog unigol ar gyfer y rhaglen gyhoeddi yn ei chyfanrwydd gyda phob cyhoeddwr, a rhaid cyrraedd y rhain o fewn 18 mis o gyrraedd y grant.
- Gall cyfran pob cyhoeddwr o gyllideb y cynllun gynyddu neu ostwng dros amser, yn unol â gallu'r cyhoeddwr i gwrdd â'r targedau y cytunwyd arnynt adeg cynnig y grant.
- Yn gyffredinol, mae'r Cyngor Llyfrau yn ceisio cyfrannu at y gwahaniaeth rhwng y costau cyhoeddi a'r incwm a gynhyrchir, a rhoddir ystyriaeth i sefyllfa ariannol y wasg gyfan.

## 5 SUT A PHRYD I YMGEISIO

Adolygir y rhai sy'n derbyn arian ar hyn o bryd yn 2022. Dylai cyhoeddwyr sefydledig llenyddiaeth Gymraeg neu lenyddiaeth Gymreig yn Saesneg sy'n awyddus i holi am y posibilrwydd o arian refeniw am y cyfnod 2023–2026 gysylltu â'r Adran Datblygu Cyhoeddi.

## 6 TALU'R GRANTIAU

Fel rheol telir grantiau mewn symiau cyfartal ar ddechrau bob chwarter. Bydd yr Adran Datblygu Cyhoeddi yn derbyn pedwar copi o bob llyfr sy'n rhan o'r rhestr rhaglen refeniw yn uniongyrchol o'r Ganolfan Ddosbarthu.

## 7 MONITRO A GWERTHUSO'R GWAITH A GEFNOGWYD

Bydd y Cyngor Llyfrau yn gofyn am ffigurau gwerthiant bob blwyddyn. Bydd hefyd yn cynnal cyfarfod yn flynyddol gyda phob cyhoeddwr refeniw i adolygu perfformiad a thargedau. Paratoir Cytundebau Ariannu Unigol yn nodi meysydd ychwanegol i'w monitro a'u gwerthuso. **Gweler hefyd yr Amodau Grant [GT&C RG (2021)] am wybodaeth bellach.**

**Adran Datblygu Cyhoeddi, Cyngor Llyfrau Cymru,**

Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JB

e-bost: english.grants@books.wales

MAE'R DDOGFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG / AN ENGLISH-LANGUAGE VERSION OF THIS DOCUMENT IS ALSO AVAILABLE

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

GRANTIAU CYHOEDDI SAESNEG

CYHOEDDWYR CYLLID REFENIW A RHAGLENNI CYHOEDDI CYLLID REFENIW

AMODAU CYFFREDINOL

1 Rhaid i'r cyhoeddwr hysbysu Adran Datblygu Cyhoeddi Cyngor Llyfrau Cymru yn syth am unrhyw newidiadau i'r teitlau neu'r dyddiadau cyhoeddi sydd wedi'u rhestru yn y rhaglen gyhoeddi flynyddol a gytunwyd gyda'r Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi .

2 Rhaid i bob teitl yn rhaglen gyhoeddi refeniw flynyddol y cyhoeddwyr (neu rai tebyg sy'n cymryd eu lle a gytunwyd ymlaen llaw) gyrraedd Canolfan Ddosbarthu Cyngor Llyfrau Cymru erbyn dyddiad wedi ei gytuno yn ysgrifenedig ymlaen llaw yn ystod yr wythnos olaf ym mis Mawrth bob blwyddyn. Bydd unrhyw lyfrau nad ydynt yn cyrraedd y dyddiad cau hwn yn dod yn rhan o raglen gyhoeddi'r flwyddyn nesaf a bydd cyfanswm y grant a dalwyd yn barod ar gyfer y llyfrau hwyr yn y flwyddyn ariannol flaenorol yn cael ei dynnu o'r swm sy'n daladwy yn y flwyddyn ddilynol.

3 Rhaid argraffu'r gydnabyddiaeth a ganlyn ar y ddalen tu ôl i'r ddalen deitl ym mhob llyfr sydd wedi derbyn grant neu lyfr y mae staff y cefnogir eu swyddi gan gymorth grant wedi bod yn gweithio arno: "The publisher acknowledges the financial support of the Welsh Books Council." Yn ychwanegol at hyn, lle bo logos cyllidwyr/noddwyr/cefnogwyr eraill yn ymddangos ar y dudalen gyferbyn â'r dudalen deitl, y clawr neu unrhyw le arall yn y llyfr, rhaid i'r cyhoeddwr gynnwys logo Cyngor Llyfrau Cymru yn ogystal â'r geiriad a roddir uchod. Dylid cydnabod cymorth ariannol y Cyngor Llyfrau hefyd ym mhob digwyddiad cyhoeddus sy'n ceisio hyrwyddo neu farchnata teitlau sydd wedi derbyn cymorth. Gallai peidio â chynnwys cydnabyddiaeth briodol arwain at ostyngiad o hyd at 10% yn y grant taladwy. Ni ddylid defnyddio cydnabyddiaeth o'r grant hwn ac unrhyw gyfeiriadau eraill at y Cyngor mewn unrhyw ffordd i awgrymu fod y Cyngor yn derbyn neu'n ymgymryd â chyfrifoldeb i drydydd parti am ddyledion neu rwymedigaethau'r sawl sydd wedi derbyn y grant (gweler rhif. 28).

4 Rhaid i bob llyfr sy'n derbyn cymorth grant arddangos rhif ISBN 10- digid ac 13-digid ynghyd â chod bar ar glawr pob cyhoeddiad. Yn achos ailargraffiadau neu argraffiadau newydd, rhaid dangos blwyddyn gyhoeddi'r ailargraffiad neu'r argraffiad newydd yn glir.

5 Dylai ISBN pob llyfr newydd a gyhoeddir, ynghyd â chymaint ag y bo modd o fanylion eraill am y llyfr, gyrraedd Adran Gwerthu a Gwybodaeth y Cyngor Llyfrau,

ar bapur neu mewn fformat electronig, o leiaf naw mis cyn cyhoeddi fel y nodir gan y Llwybr Critigol.

6 Dylai'r sawl sy'n derbyn y grant ddefnyddio'r ffurflen ar-lein i gyflwyno pob gwybodaeth lyfryddol a lluniau o'r clawr. Mae cyfrinair ar gyfer cael mynediad at y ffurflen ar-lein, gellir ei gael trwy gysylltu â'r  Adran Adran Gwerthu a Gwybodaeth. Mewn achosion lle nad yw hyn yn bosib dylai derbynnydd y grant drafod hyn gyda'r Adran Adran Gwerthu a Gwybodaeth a'r Adran Datblygu Cyhoeddi.

7 Rhaid i'r sawl sy'n derbyn y grant ddiweddaru pob gwybodaeth am y teitl sydd ar *gwales.com* (gwybodaeth lyfryddol, disgrifiad byr a llun o'r clawr) yn syth,  fel y mae newidiadau'n digwydd, cyn ac ar ôl cyhoeddi, nes bod y llyfr allan o brint.  Dylai derbynnydd y grant wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol trwy gyfrwng y ffurflen ar-lein (neu fel y cynghorir gan yr Adran Gwerthu a Gwybodaeth). Dylai'r cyhoeddwr ddiweddaru'r wybodaeth sydd ar *gwales.com* yn rheolaidd.

8 Ni chaniateir gostwng pris llyfr sydd wedi derbyn cymorth grant yn sylweddol o fewn 18 mis i'w gyhoeddi. Nid yw hyn yn atal gwahanol fathau o gynigion hyrwyddo, ond y mae'n atal sefyllfa lle mae teitlau sydd wedi derbyn cymorth grant yn ddiweddar a'u gwerthiant wedi arafu rhag cael eu gwerthu'n llawer rhatach ac felly ni fydd teitlau diweddar yn cael eu cynnwys yn sêl y gwanwyn y Cyngor Llyfrau.

9 Disgwylir i bob llyfr a gyhoeddir gan gyhoeddwr sy'n derbyn cymorth refeniw fod ar gael drwy Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau ac ar gael i adwerthwyr ar y telerau masnachol arferol oni bai y cytunir fel arall.

10 Mae'n amod fod llyfrau sy'n derbyn cymorth grant yn cael eu danfon i Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau cyn neu ar yr un pryd  ag y byddant ar gael trwy unrhyw ddull arall i unrhyw ddosbarthydd neu adwerthwr.  Cyfrifoldeb y cyhoeddwr yw gwneud y trefniadau angenrheidiol i sicrhau fod llyfrau'n cyrraedd y Ganolfan Ddosbarthu mewn pryd. Dylai elyfrau fod ar gael ar Gwales cyn neu ar yr un pryd ag y byddent ar gael trwy unrhyw ddull arall i unrhyw ddosbarthydd neu adwerthwr.

11 Dylai teitlau sy'n derbyn cymorth grant fod ar gael am o leiaf 12 mis ar ôl eu cyhoeddi (gyda'r eithriadau a ganlyn: cydargraffiadau lle bo'r cyhoeddwr Cymreig yn methu rheoli'r amserlen argraffu; llyfrau tymhorol, gan gynnwys rhai teitlau Nadolig, neu lyfrau a gyhoeddir i gyd-fynd gyda digwyddiadau arbennig, e.e. Cwpan y Byd.) Os yw llyfr sy'n derbyn cymorth grant yn mynd allan o stoc mewn llai na blwyddyn (caniateir mwyafswm o bythefnos o ras ar gyfer unrhyw deitl unigol mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis), bydd cosb ariannol o £1000. Cyfrifoldeb y cyhoeddwr yw sicrhau fod ailargraffiadau ar gael mewn da o bryd a bod llyfrau a archebir yn cyrraedd Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau mewn digon o bryd i osgoi gorfod talu'r ddirwy uchod.

12 Ni ddylai cyhoeddwyr gyhoeddi llyfrau yn ystod mis Rhagfyr. Bydd dirwy ariannol o £200 am gyhoeddi teitlau ym mis Rhagfyr. Rhaid i Gyhoeddwyr sicrhau felly bod pob llyfr yn cyrraedd Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau erbyn dydd mercher olaf mis Tachwedd bob blwyddyn. Mae'r gosb hon yn berthnasol i bob llyfr sy'n derbyn cymorth grant.

13 Rhaid i'r cyhoeddwr gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor Llyfrau ar 1 Tachwedd bob blwyddyn, a fydd yn cynnwys ffigurau gwerthiant, adroddiad ariannol, diweddariad ar y cynnydd o safbwynt targedau perfformio, rhaglen gyhoeddi wedi'i chostio ar gyfer y flwyddyn i ddod, cyfrifon wedi'u harchwilio ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol ac unrhyw wybodaeth atodol y bydd y Cyngor Llyfrau yn gofyn amdani.

14 Rhaid i'r cyhoeddwr gynhyrchu rhestr gytbwys o deitlau. Er bod y grant hwn yn caniatáu ac yn annog cyhoeddi llyfrau llenyddol, rhaid cydbwyso'r rhain gyda theitlau fydd yn cynnal cynhyrchu'r rhestr yn ei chyfanrwydd. Gyda hyn mewn golwg, pennir targed gwerthiant net cyfartalog unigol ar gyfer y Rhestr refeniw gyfan a hynny gyda golwg ar eu gwerthiant net dros y 3 blynedd flaenorol. Rhaid i'r cyhoeddwr gyrraedd y targedau hyn o fewn 18 mis i gael cynnig grant. Bydd yr Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi yn nodi os methir cyrraedd y targedau hyn a gallai methu â chyrraedd y targedau hyn yn gyson arwain at ostyngiad mewn arian.

15 Rhaid nodi nifer y copïau o bob teitl a gyhoeddir pan fydd y cyhoeddwr yn cyflwyno'r rhaglen gyhoeddi flynyddol. Dylai'r cyhoeddwr roi gwybod ymlaen llaw i'r Cyngor Llyfrau am unrhyw newidiadau i'r rhediad argraffu arfaethedig. Mae'r Cyngor Llyfrau yn cadw'r hawl i ostwng y grant os bydd y rhediad argraffu'n cael ei newid heb i hynny gael ei hysbysu ymlaen llaw a'i gymeradwyo.

16 Rhaid i bob cyhoeddwr nad yw'n argraffu gadw anfonebau ar gyfer y gwaith argraffu a rhwymo a wneir. Mae'r Cyngor Llyfrau'n cadw'r hawl i ofyn am y rhain ac unrhyw dystiolaeth berthnasol arall o wariant. Mae'n ofynnol hefyd iddynt ofyn am o leiaf dri phris i bennu'r prisiau mwyaf cystadleuol ar gyfer cysodi ac argraffu o leiaf bob 3 blynedd, er ein bod yn argymell cymharu prisiau'n amlach.

17 Dylai cyhoeddwyr-argraffwyr gadw cofnod o'r prisiau a godir yn fewnol am argraffu llyfrau a dylai'r rhain gael eu hadlewyrchu yn y prisiau a godir ar gwsmeriaid eraill am wasanaethau tebyg. Mae'r Cyngor Llyfrau'n cadw'r hawl i gwestiynu'r rhain neu unrhyw dystiolaeth berthnasol arall o wariant. Dylai trafodion ariannol adain gyhoeddi cyhoeddwyr-argraffwyr gael eu cadw ar wahân i weithgarwch argraffu at ddibenion adroddiadau ariannol i'r Cyngor Llyfrau.

18 Dylai cwmnïau cyfyngedig drwy wariant gynnal o leiaf bedwar cyfarfod o'u Bwrdd Cyfarwyddwyr ym mhob blwyddyn ariannol. Dylid anfon copi o'r cofnodion, gwaith papur cysylltiedig ac agendau'r cyfarfodydd hyn i'r Cyngor Llyfrau yr un pryd ag y

dosberthir y papurau hyn i'r Cyfarwyddwyr. Gall cynrychiolydd o'r Cyngor Llyfrau'n mynychu cyfarfod (yn rhinwedd ei swydd) o dro i dro.

19 Yn ôl y gyfraith, dylai cwmnïau cyfyngedig drwy wariant gael Cyfarwyddwr ac Ysgrifennydd enwebedig. Er nad yw'n angenrheidiol cael trysorydd, mae'r Cyngor Llyfrau'n mynnu y dylai unigolyn enwebedig fod yn gyfrifol am oruchwylio'r adroddiadau ariannol a gyflwynir i'r Bwrdd. Ni ddylai hwn fod yr un unigolyn â'r sawl sy'n gyfrifol am reolaeth ariannol o ddydd i ddydd nac am baratoi adroddiadau ariannol y Bwrdd. Cynghorir hefyd y dylai o leiaf un aelod o'r Bwrdd fod â chefndir a phrofiad diweddar ym meysydd busnes a masnach.

20 Rhaid i awduron dderbyn a llofnodi cytundeb. Rhaid i gyhoeddwr anfon datganiadau i awduron o leiaf unwaith y flwyddyn. Dylai breindal sy'n ddyledus hefyd gael ei dalu o leiaf unwaith y flwyddyn. Dylai cytundebau nodi'n glir pryd y gall awduron ddisgwyl derbyn datganiadau a thaliadau.

21 Ni ddylai breindal llyfrau a gyhoeddir gyda chymorth grant rhaglen refeniw fod yn llai na 10% o'r pris ar y clawr. Pan go gostyngiad dros 55% gellir trafod cyfran net o'r pris gyda'r awdur. Rhaid i'r cyhoeddwr gadw cofnodion clir o werthiant ar wahanol ostyngiadau.

22 Yn achos gwaith wedi ei gyfieithu, rhaid cydnabod y cyfieithydd ar y ddalen tu ôl i'r ddalen deitl.

23 Rhaid i'r cyhoeddwr gyhoeddi catalog wedi'i ddiweddaru ar gyfer y fasnach o leiaf unwaith bob dwy flynedd. Dylai'r catalog gyfeirio at ffynonellau o gyflenwi, gan gynnwys llyfrwerthwyr, Ganolfan Dosbarthu'r Cyngor Llyfrau a Gwales.

24 Rhaid i'r cyhoeddwr gynnal gwefan wedi'i diweddaru.

25 Wrth gyfeirio at ddosbarthu deunyddiau ar gyfer y fasnach neu ddeunydd cyhoeddusrwydd, rhaid i'r cyhoeddwr gynnwys manylion Canolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau.

26 Wrth gyfeirio at wefannau neu ffynonellau eraill ar y rhyngrwyd, mewn deunydd hyrwyddo cyffredinol neu ddeunydd ar gyfer y fasnach, rhaid rhestru *gwales.com* hefyd. Nid oes angen rhestru Gwales.com ar gloriau teitlau.

27 Bydd yr Adran Datblygu Cyhoeddi yn sicrhau pedwar copi cyfarch gofynnol o bob teitl yn uniongyrchol o'r Ganolfan Ddosbarthu.

28 Bydd y Cyhoeddwyr ar eu rhan ei hunain (ac eraill) yn cyfamodi gyda Chyngor Llyfrau Cymru a'u holynwyr yn y teitl y bydd y Cyhoeddwr bob amser o hyn allan yn diogelu'r Is-bwyllgor ac yn ei ddigolledu rhag pob achos, cost, hawliad a

gorchymyn cysylltiedig ag unrhyw ddeddf allai arwain at dorri unrhyw un o ddeddfau Cymru a Lloegr.

29 Os yw llyfr ar gael mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg, ac un o'r fersiynau hynny wedi derbyn cymorth grant, yna rhaid i'r ddwy fersiwn fod ar gael drwy'r Ganolfan Ddosbarthu yn unol â'r telerau a nodir yn amodau 9 a 10.

30 Os yw cyhoeddwr yn derbyn arian craidd gan y Cyngor Llyfrau, e.e. cymorth ariannol ar gyfer swyddi, yna mae'n un o amodau'r arian hwnnw fod pob teitl a gyhoeddir gan y cyhoeddwr, pa un a yw'n derbyn cymorth grant unigol neu beidio, yn gorfod bod ar gael yn ddi-dor drwy Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau (on nid mewn achosio a nodir yn amod 11).

31 Disgwylir i gyfeirlyfrau neu lyfrau o natur academaidd sy'n derbyn cymorth grant gynnwys mynegai.

32 Cynigir y grant ar sail y wybodaeth sydd yn y cais ac unrhyw ohebiaeth atodol. Os nad yw'r dibenion y rhoddir y grant ar eu cyfer yn cael eu cyflawni o fewn yr amser oedd i fod, neu os na chydymffurfiwyd gyda'r amodau perthnasol, gall y Cyngor Llyfrau ofyn am i'r cyfan neu ran o'r grant allai fod wedi cael ei dalu gael ei ddychwelyd.

MAE'R DDOGFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG / AN ENGLISH-LANGUAGE VERSION OF THIS DOCUMENT IS ALSO AVAILABLE